

# Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Datganiad o Ddiddordeb

### Hysbysiad Preifatrwydd: Grantiau Llywodraeth Cymru

#### Sut byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am gyllid grant.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu amrediad eang o gynlluniau grant i helpu i gyflawni ein polisiâu a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a roddir gennych mewn perthynas â'ch cais am gyllid grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid ai peidio.

Cyn inni roi cyllid grant ichi, byddwn yn cynnal archwiliadau i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Er mwyn inni allu cynnal yr archwiliadau hyn, mae angen inni brosesu data personol amdanoch a'u rhannu ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn credu bod risg y gallech dwyllo neu wyngalchu arian, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod rhoi'r arian rydych wedi gofyn amdano, neu gallem roi'r gorau i roi cyllid grant a ddyfarnwyd ichi eisoes.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw unrhyw gofnod bod risg y gallech dwyllo neu wyngalchu arian. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle bydd eraill yn gwrthod rhoi gwasanaethau, cyllid neu waith ichi.

Er mwyn asesu a ydych yn gymwys, mae'n bosibl y bydd angen inni rannu gwybodaeth bersonol mewn perthynas â'ch cais â'r canlynol:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Adrannau Amaeth eraill Llywodraeth y DU
- Awdurdodau Rheoleiddo, fel Cyllid a Thollau El Fawrhydi, Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Heddlu.

Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth â sefydliadau sy'n darparu hyfforddiant, yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn cynnig cyngor a chymorth ynghylch arloesi ar ran Llywodraeth Cymru at ddibenion targedu cymorth yn briodol.

Mae'n bosibl hefyd y bydd aelod o'r cyhoedd yn gofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ryddhau wybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion y symiau a delir i fuddiolwyr Cymorth Gwledig. Cyhoeddir data ar bob buddiolwr ar wefan y gellir ei chwilio, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau a'r cynllun y cafodd y cymhorthdal ei dalu o dano. Fodd bynnag, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â £1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cafodd ei gyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA yn: [www.cap-payments.defra.gov.uk](http://www.cap-payments.defra.gov.uk)

Byddwn yn cadw'r wybodaeth bersonol sydd yn y ffeiliau yn unol â'n polisi cadw. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich data personol yn cael ei gadw am gyfnod o saith mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, sef y sawl a fydd wedi cael grant, yn cael eich rhyddhau rhag yr holl amodau a fydd yn gysylltiedig â'r grant a ddyfernir a phan fydd yr holl daliadau wedi'u gwneud. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y darparwyd yr wybodaeth gennych.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- gweld copi o'ch data eich hun
- gofyn inni gywiro unrhyw wallau yn y data hwnnw
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- gofrestru cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD  
CF10 3NQ

E-bost: [DataProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:DataProtectionOfficer@llyw.cymru)

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y datganiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW.

<https://llyw.cymru/hysbysiad-preifatrwydd-grantiau-llywodraeth-cymru>

# Mae hon yn gronfa buddsoddi cyfalaf a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Darllenwch y Canllawiau ar gyfer y Cynllun gan fod y rhain yn cynnwys manylion llawn y meini prawf cymhwysedd allweddol, pwy sy'n gymwys ar gyfer y prosiect a chostau cymwys.

## 1.1 Enw a chyfeiriad busnes yr ymgeisydd

Enw'r busnes

Manylion cyswllt

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad gwefan

## 1.2 Enw a chyfeiriad y prosiect, os yw'n wahanol i'r uchod

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif ffôn

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

### 1.3 Manylion y busnes neu sefydliad (Ticiwch os yw'n briodol)

#### Statws

Unig fasnachwr

Partneriaeth

Cwmni cyfyngedig preifat

Arall (nodwch)

#### Maint y busnes

Newydd

Micro

Bach neu ganolog

Mawr

Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol)

Rhif Elusen (os yw'n berthnasol)

Manylion yr holl gyfarwyddwyr/ymdiriedolwyr

#### Achredu Rhowch dystiolaeth pan fydd hynny yn berthnasol

Tystysgrif lechyd yr Amgylchedd

Tystysgrif Hylendid Bwyd

SALSA

BRC

ARALL

Gradd Seren Hylendid Bwyd gyfredol

1 i 5

Rhaid iddi fod yn dair neu'n uwch i fod yn gymwys

A ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW?

Ydw

Nac ydw

Nid yw eich busnes yn gymwys os nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer TAW

Rhif TAW

Cyfeirnod y Cwsmer

A ydych wedi'ch cofrestru gydag RPW Ar-lein?

Ydw

Nac ydw

## 2.1 Enw'r prosiect

## 2.2 Disgrifiad o'r prosiect – dim mwy na 200 gair

Esboniad byr a chryno o'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal a/neu'r buddsoddiad a fydd yn cael ei wneud yn ystod y prosiect, gan gynnwys amlinelliad byr iawn o'r hyn y bydd yr arian yn cael ei wario arno, a'r hyn y disgwylir ei gyflawni drwy gynnal y prosiect hwn.

## 2.3 Amserlen y prosiect

Dyddiad dechrau'r prosiect

Dyddiad diwedd y prosiect

DD/MM/BBBB

DD/MM/BBBB

## 2.4 Costau'r prosiect

Gwaith adeiladu	£ <input type="text"/>	Cyfarpar, gosodiadau a ffitiadau	£ <input type="text"/>
Offer technoleg gwybodaeth	£ <input type="text"/>	Ffioedd proffesiynol	£ <input type="text"/>
Cyfanswm cost gymwys y prosiect	£ <input type="text"/>	Y cyfanswm y gwneir cais amdano %	£ <input type="text"/>

## 2.5 Cyflogaeth

Nifer y cyflogeion llawnamser (swyddi cyfwerth a llawnamser ar sail wythnos 30 awr)	Cyn <input type="text"/>	Wedyn <input type="text"/>
Swyddi wedi'u diogelu:	Cyn <input type="text"/>	Wedyn <input type="text"/>

## 2.6 Caniatâd cynllunio

A oes angen caniatâd cynllunio i fwrw ymlaen â'r prosiect hwn?	Oes <input type="text"/>	Nac oes <input type="text"/>
--	--------------------------	------------------------------

### Cyfeirnod y Caniatâd Cynllunio\*

\*Pan fydd yn berthnasol, rhaid cael caniatâd cynllunio cyn cyflwyno datganiad o ddiddordeb

## 3.0 Ariannu'r prosiect

	Swm (£)	Wedi'i gadarnhau	
		Ydy	Nac ydy
Cyfalaf cyfrannau / cyfrif cyfalaf	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Benthyciadau banc a benthyciadau eraill	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Gorddrafft	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Balans / cronfeydd arian parod sy'n bodoli ar hyn o bryd	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyllid arall gan y sector cyhoeddus / preifat (nodwch)	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfanswm yr arian cyfatebol	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

## Meini prawf ar gyfer dewis datganiadau o ddiddordeb

Disgwylir i bob prosiect gyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau a amlinellir yn y ddogfen 'Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021' Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant Bwyd a Diod o 2021 (llyw.cymru), sef:

Adeiladu diwydiant bwyd a diod Cymreig cryf a bywiog gyda chadwyni cyflenwi cynaliadwy sydd ag enw da byd-eang am ragoriaeth ac sydd ag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf amgylcheddol a chymdeithasol gyfrifol yn y Byd.

**Bydd prosiectau yn cael eu sgorio yn unol â'r raddfa ddilynol. Er mwyn bod yn llwyddiannus a symud ymlaen i wneud cais llawn bydd angen i ddatganiadau o ddiddordeb gael sgôr o ganolig o leiaf am bob maen prawf.**

**Uchel** – Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion cadarn a manwl yn erbyn yr holl ofynion tystiolaeth, ac yn dangos y lefel isaf posibl o risg.

**Canolig** – Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion boddhaol a manwl yn erbyn y gofynion tystiolaeth, ac yn dangos lefel isel o risg.

**Isel** – Mae'r ymgeisydd wedi darparu ymatebion anghyflawn neu annigonol yn erbyn y gofynion tystiolaeth ac yn dangos lefel annerbyniol o risg.

**Dim mwy na 500 gair y cwestiwn.** Bydd ymatebion dros nifer y geiriau hyn yn cael eu diystyru. Rhaid i'r holl dystiolaeth a ddarperir fod o fewn y cyfrif geiriau. Ni fydd dogfennau ychwanegol yn cael eu hystyried.

# 1. Twf

Amcan ein Gweledigaeth yw bod gwerth trosiant sector bwyd a diod Cymru yn tyfu'n fwy na gweddill y DU, o ystyried ei maint, ac i o leiaf £8.5bn erbyn 2025.

\*Nodwch os yw busnes yn eiddo i riant gwmni, neu wedi ei leoli ar fwy nag un safle, rhaid i'r gwerth trosiant fod ar gyfer safle'r prosiect yn unig, NID trosiant grŵp.

**Er mwyn ategu hyn, rhaid ichi ddangos sut y byd eich prosiect yn gallu sicrhau cynnydd cynaliadwy mewn trosiant\* ac egluro yn glir y tybiaethau sy'n sail i'r amcanestyniadau, gan ddarparu tystiolaeth pryd bynnag y bo modd.**



## 2. Cynaliadwyedd

Yn seiliedig ar Ddyfodol Sero Net [WG44621 Gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan \(llyw.cymru\)](#) mae'n hanfodol ein bod yn helpu'r diwydiant bwyd a diod i ddatgarboneiddio ond hefyd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd y mae newid i Gymru Sero Net yn eu darparu. Mae ein prif weledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yn hyrwyddo sicrhau'r lefel uchaf o gynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol.

**Dangoswch sut bydd eich prosiect yn darparu canlyniadau cynaliadwyedd clir a mesuradwy.**

### 3. Arloesi

Rhaid i ddiwydiant bywiog a blaengar o safbwynt economaidd fod yn arloesol wrth gipio marchnadoedd a symud ymlaen. Mae Bwyd a Diod Cymru a Phrosiect HELIX wedi cefnogi cwmnïau bwyd a diod i dyfu, arloesi, cystadlu a chyrraedd marchnadoedd newydd [Project HELIX \(E\).pdf](#).

**Dangoswch y lefel fesuradwy o arloesi, y gwelliant i'ch cynhyrchiant a'r ansawdd y bydd eich prosiect yn eu cyflawni.**

## 4. Gwaith Teg, Datblygu Sgiliau a Llwybrau Gyrfa

Mae gan ein dull o ymdrin â'r diwydiant bwyd a diod rôl allweddol wrth greu Cymru ffyniannus a chadarn, dan ddilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae Gwaith Teg yn golygu trin pob gweithiwr mewn modd gweddus a pharchus. Mae'n cynnwys cyflogau teg, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch a datblygu sgiliau. [Fair Work Commission](#) | [GOV.WALES](#)

**Dangoswch sut bydd y prosiect yn cyfrannu at eich ymrwymiad i Waith Teg, Datblygu Sgiliau a Llwybrau Gyrfa.**

## 5. Gwerth am arian

Mae'n ofynnol i brosiectau ddarparu gwerth am arian. Rhoddir sgôr i brosiectau yn seiliedig ar gynnydd amcanestynedig mewn trosiant o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect (a), wedi'i rannu â gwerth y grant y gofynnir amdano (b).

e.e. byddai gan brosiect sy'n rhagweld y byddai ei drosiant yn cynyddu £100,000 o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect ac yn gofyn am grant o £20,000 werth (a/b) o 5.0 ('Uchel' ar y Raddfa Sgorio). Byddai gan brosiect sy'n rhagweld y byddai ei drosiant yn cynyddu £50,000 o fewn tair blynedd i gwblhau'r prosiect ac yn gofyn am grant o £40,000 werth (a/b) o 1.25 ('Isel' ar y Raddfa Sgorio).

Bydd y gwerthoedd (a/b) ar gyfer yr holl brosiectau yn y cyfnod ymgeisio'n arwain at sgôr yn cael ei dyrannu fel y dangosir isod:

	Graddfa Sgorio
Cynnydd amcanestynedig mewn trosiant/grant – sgôr (a/b) rhwng 4.1	Uchel
Cynnydd amcanestynedig mewn trosiant/grant – sgôr (a/b) rhwng 3.0 a 4.0	Canolig
Cynnydd amcanestynedig mewn trosiant/grant – sgôr (a/b) rhwng 0 a 2.9	Isel

**Rhowch ragamcaniad isod gan roi manylion y cynnydd amcanestynedig yn eich trosiant o fewn tair blynedd i orffen y prosiect. Cadarnhewch hefyd swm y grant rydych yn gofyn amdano yn unol â blwch 2.4 uchod.**